wedi'i nodi yng Nghyfres Nodiadau Cyngor 8 yr Arolygiaeth Gynllunio ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/> – fersiwn Gymraeg;

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/> – fersiwn Saesneg.

## Dyfarnu Costau

Hefyd, rwyf yn tynnu eich sylw at y posibilrwydd o Ddyfarnu Costau yn erbyn Partion â Buddiant sy'n ymddwyn yn afresymol. Dylech fod yn ymwybodol o'r canllawiau costau perthnasol "Dyfarnu costau; archwilio ceisiadau am orchmynion caniatâd datblygu" sy'n berthnasol i brosiectau Seilwaith Cenedlaethol. Mae'r canllawiau hyn ar gael yn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/guidance/> – gwefan Gymraeg;

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/guidance/> – gwefan Saesneg.

## Rheoli Gwybodaeth

Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio ymrwymiad i dryloywder. Felly, bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir ar gyfer y prosiect hwn (os caiff ei derbyn gan yr Awdurdod Archwilio) ac unrhyw gofnod o gyngor a ddarparwyd, yn cael eu cyhoeddi yn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/> – gwefan Gymraeg;

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/> – gwefan Saesneg.

Hefyd, gellir gweld holl ddogfennau'r archwiliad yn electronig yn y lleoliadau a restrir yn **Atodiad D**.

Sylwch, er mwyn hwyluso archwiliad effeithiol a theg, rydym o'r farn bod angen cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth bersonol. I ddarganfod sut rydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd (dolen isod).

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r holl bartion wrth archwilio'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Martin Broderick*

## Awdurdod Archwilio

### Atodiadau

**A** Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>

- B** Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion
- C** Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais
- D** Argaeledd dogfennau'r Archwiliad
- E** Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio
- F** Hysbysiad o'r arolygiad digwmni o'r safle a gynhaliwyd ar 15 Awst 2018
- G** Hysbysiad ffurfiol o Wrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft
- H** Agenda ar gyfer y Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar 10 Hydref 2018

Nid yw'r cyfathrerbiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.  
Edrychwch ar ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

Dyddiad: **Dydd Mercher 10 Hydref 2018**

Cofrestru'n agor o: **09.30am**

Amser Dechrau'r Cyfarfod: **10.00am**

Lleoliad: **Gwesty'r Village Hotel, Langdon Road, Abertawe, SA1 8QY**

<b>09.30am</b>	Cofrestru'n agor
<b>Eitem 1 (10.00am)</b>	Croeso a chyflwyniadau
<b>Eitem 2</b>	Sylwadau'r Awdurdod Archwilio am y broses archwilio
<b>Eitem 3</b>	Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion – gweler <b>Atodiad B</b>
<b>Eitem 4</b>	Terfynau amser ar gyfer cyflwyno: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau Ysgrifenedig</li> <li>• Adroddiadau ar yr Effaith Leol</li> <li>• Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio</li> <li>• Datganiadau Tir Cyffredin</li> <li>• Hysbysiadau yn ymwneud â gwrandawiadau</li> <li>• Ceisiadau gweithdrefnol yn ymwneud â'r eitemau hyn a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol neu erbyn <b>3 Hydref 2018</b>.</li> </ul>
<b>Eitem 5</b>	Gwrandawiadau ac Archwiliad Safle â Chwmni: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyddiad yr Archwiliad Safle â Chwmni o safle'r cais a'r cyffiniau</li> <li>• Dyddiad Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft</li> <li>• Dyddiadau a gedwir ar gyfer Gwrandawriad(au) Llawr Agored</li> <li>• Cyfnod amser a gedwir ar gyfer Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol</li> <li>• Cyfnod amser a gedwir ar gyfer Gwrandawriad Caffael Gorfodol</li> <li>• Ceisiadau gweithdrefnol yn ymwneud â'r eitemau hyn a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol neu erbyn <b>3 Hydref 2018</b>.</li> </ul>
<b>Eitem 6</b>	Unrhyw gyflwyniadau sy'n weddill yn ymwneud â materion gweithdrefnol na nodwyd yn yr agenda a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol neu erbyn <b>3 Hydref 2018</b> .
<b>Eitem 7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Statws a106</li> <li>• Statws y Ceisiadau Cynllunio ar gyfer Cysylltiadau Nwy a Thrydan</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"><li>• Statws y Drwydded Amgylcheddol</li></ul>
<b>Eitem 8</b>	Unrhyw fater arall
	<b>Cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol</b>

**Dalier sylw:** Dylech gofrestru a bod ar gael o ddechrau a thrwy gydol y cyfarfod. Gellir newid yr agenda yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn dod â'r cyfarfod i ben cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi'u gwneud. Os bydd unrhyw faterion ychwanegol i'w trafod neu os bydd cyflwyniadau'n cymryd cyfnod sylweddol o amser, gall yr Awdurdod Archwilio newid trefn eitemau'r agenda a chyflwyno egwylliau yn y trafodion o bosibl.

## **Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion**

Dyma'r asesiad cychwynnol o'r Prif Faterion sy'n deillio o'r ystyriaeth gan yr Awdurdod Archwilio o ddogfennau'r cais a Sylwadau Perthnasol a dderbyniwyd. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr neu gyfyngedig o'r holl faterion perthnasol; rhoddir ystyriaeth i bob mater pwysig a pherthnasol wrth benderfynu ar argymhelliad wedi i'r Archwiliad ddod i ben. Mae cydberthynas a gorgyffwrdd rhwng nifer o'r Prif Faterion a amlinellir isod, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr Archwiliad Rhestrir y Prif Faterion yn nhrefn yr wyddor ac ni ddylid ystyried bod hyn yn awgrymu trefn yn ôl pwysigrwydd.

### **Caffael Gorfodol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r:**

- Angen i'r tir fod yn destun caffael gorfodol
- Yr angen i sefydlu cais cymhellol er budd y cyhoedd
- Trefniadau ariannol

### **Dyluniad, Cynllun a Gwelededd, gan gynnwys materion yn ymwneud â:**

- Dyluniad yr orsaf bŵer
- Tirweddu a sgrinio

### **Gorchymyn Caniatâd Datblygu, gan gynnwys materion yn ymwneud â:**

- Phwerau a geir drwy'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu
- Gofynion
- Darpariaethau amddiffynnol
- Darparu bond ar gyfer datgomisiynu
- Terfyn amser gweithredol ar gyfer Gorsaf Generadu
- Darparu cyllid ar gyfer cyflawni, monitro a gorfodi

### **Effeithiau Economaidd a Chymdeithasol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r:**

- Effaith ar yr economi lleol, gan gynnwys twristiaeth
- Yr effaith ar wasanaethau a chyfleusterau lleol
- Yr effaith ar dai a chyflogaeth, Pentre Felindre
- Malltod eiddo
- A106

### **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys materion yn ymwneud ag:**

- Asesu effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig
- Sŵn a defnyddio trothwyon y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol/Canllawiau Arfer Cynllunio yng Nghymru
- Effeithiau cronrus
- Mesurau lliniaru

### **Materion Amgylcheddol, gan gynnwys materion yn ymwneud ag:**

- Allyriadau i'r awyr ac ansawdd aer
- Ansawdd dŵr a llifogydd
- Tirwedd ac effeithiau gweledol
- Effeithiau ar iechyd
- Niwsans golau, llwch a dirgryniad
- Anffrwythlonni adnoddau mwynol
- Amodau'r ddaear



**Cynefinoedd, Ecoleg a Chadwraeth Natur, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r:**

- Effeithiau ar safleoedd a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop a safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig eraill
- Effeithiau ar gynefinoedd a bioamrywiaeth
- Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol a mesurau lliniaru ymgorfforedig

**Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r:**

- Effeithiau ar asedau treftadaeth a thirweddau hanesyddol

**Gweithredol, gan gynnwys materion yn ymwneud â:**

- Chyfyngiadau ar ddefnyddio peiriannau
- Trwyddedau amgylcheddol
- Cysylltiadau nwy a thrydan
- Darparu gwres a phŵer cyfunedig

**Trafnidiaeth a Thraffig, gan gynnwys materion yn ymwneud â:**

- Symud a phennu llwybrau traffig adeiladu

**Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais**

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Bydd fy archwiliad o'r cais yn digwydd yn bennaf trwy ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig. Hefyd, bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried unrhyw sylwadau llafar a wnaed mewn Gwrandawriadau.

Eitem	Materion	Dyddiadau Dyledus
1	<b>Cyfarfod Rhagarweiniol</b>	<b>Dydd Mercher 10 Hydref 2018 am 10:00</b>
2	<b>Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol</b> Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar: <ul style="list-style-type: none"><li>• y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft</li></ul>	<b>Dydd Mercher 10 Hydref 2018 am 14:00</b>
3	Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi: <ul style="list-style-type: none"><li>• Amserlen yr Archwiliad</li><li>• Cwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio</li></ul>	<b>Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol</b>
4	<b>Dyddiad cau 1</b>  Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn: <ul style="list-style-type: none"><li>• Sylwadau ar Sylwadau Perthnasol;</li><li>• Crynodebau o'r holl Sylwadau Perthnasol sydd dros 1,500 o eiriau;</li><li>• Sylwadau Ysgrifenedig;</li><li>• Crynodebau o'r holl Sylwadau Ysgrifenedig sydd dros 1,500 o eiriau;</li><li>• Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw awdurdodau lleol;</li><li>• Datganiadau Tir Cyffredin y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio;</li><li>• Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio;</li><li>• Sylwadau ar ddogfennau'r cais a ddiweddarwyd;</li><li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani;</li></ul>	<b>Dydd Mercher 31 Hydref 2018</b>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar;</li> <li>• Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn unrhyw Wrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol dilynol;</li> <li>• Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Caffael Gorfodol;</li> <li>• Hysbysiad o ddymuniad i wneud sylwadau llafar mewn Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (yn ôl y gofyn);</li> <li>• Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Llawr Agored;</li> <li>• Darparu lleoliadau awgrymedig a chyfiawnhad dros arolygiadau safle i'w hystyried gan yr Awdurdod Archwilio;</li> <li>• Hysbysiad o ddymuniad i gymryd rhan mewn Arolygiad Safle â Chwmni.</li> </ul>	
<p><b>5</b></p>	<p><b>Dyddiad cau 2</b></p> <p>Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau ar Sylwadau Ysgrifenedig ac ymatebion i sylwadau ar Sylwadau Perthnasol;</li> <li>• Sylwadau ar Adroddiadau ar yr Effaith Leol;</li> <li>• Sylwadau ar ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio;</li> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig gan yr Ymgeisydd;</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Dyddiad cau 1;</li> <li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y dyddiad cau hwn.</li> </ul>	<p><b>Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018</b></p>

<b>6</b>	<b>Gwrandawriad CA</b> Dyddiad a gedwir i gynnal Gwrandawriad CA1.	<b>Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2018 am 10:00</b>
<b>7</b>	<b>Gwrandawriad Llawr Agored</b> Dyddiad a gedwir ar gyfer Gwrandawriad Llawr Agored	<b>Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2018 am 19:00</b>
<b>8</b>	<b>Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol</b> Dyddiad a gedwir ar gyfer unrhyw Wrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol 2/3.	<b>Dydd Iau 13 Rhagfyr 2018 am 10:00</b>
<b>9</b>	<b>Arolygiad Safle â Chwmni</b> Dyddiad a gedwir i gynnal Arolygiad Safle â Chwmni (yn ôl yr angen).	<b>Dydd Gwener 14 Rhagfyr 2018 am 9:00</b>
<b>10</b>	<b>Dyddiad cau 3</b> Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn: <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar;</li><li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani</li><li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Dyddiad cau 2.</li></ul>	<b>Dydd Gwener 21 Rhagfyr 2018</b>
<b>11</b>	Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi: <ul style="list-style-type: none"><li>• Cwestiynau Ysgrifenedig Pellach yr Awdurdod Archwilio (yn ôl yr angen);</li><li>• Ymgynghoriad yr Awdurdod Archwilio ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (yn ôl yr angen).</li></ul>	<b>Dydd Gwener 11 Ionawr 2019</b>
<b>12</b>	<b>Dyddiad cau 4</b> Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn: <ul style="list-style-type: none"><li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y dyddiad cau hwn;</li></ul>	<b>Dydd Gwener 25 Ionawr 2019</b>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin diwygiedig/cyffredol;</li> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Ymgeisydd;</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Dyddiad cau 3.</li> </ul>	
<b>13</b>	<p><b>Dyddiad cau 5</b></p> <p>Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Pellach yr Awdurdod Archwilio (yn ôl yr angen);</li> <li>• Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr Ymgeisydd;</li> <li>• Sylwadau ar Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop yr Awdurdod Archwilio (yn ôl yr angen);</li> <li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y dyddiad cau hwn;</li> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu dewisol yr Ymgeisydd yn adroddiad dilysu templed yr Offeryn Statudol;</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Dyddiad cau 4.</li> </ul>	<b>Dydd Gwener 1 Chwefror 2019</b>
<b>14</b>	<p><b>Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol (yn ôl yr angen)</b></p> <p>Dyddiad a gedwir ar gyfer unrhyw Wrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol 4.</p>	<b>Dydd Mawrth 26 a Dydd Mercher 27 Chwefror 2019</b>
<b>15</b>	<p>Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio (yn ôl yr angen);</li> <li>• Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd</li> </ul>	<b>Dydd Llun 11 Mawrth 2019</b>

	yn Ewrop (yn ôl yr angen).	
<b>16</b>	<p><b>Dyddiad cau 6</b></p> <p>Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar;</li> <li>• Unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin diwygiedig/cyffredol;</li> <li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y dyddiad cau hwn;</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Dyddiad cau 5.</li> </ul>	<b>Dydd Mercher 6 Mawrth 2019</b>
<b>17</b>	<p><b>Dyddiad cau 7</b></p> <p>Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio (yn ôl yr angen);</li> <li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani;</li> <li>• Ymatebion i wybodaeth bellach y mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn amdani erbyn y dyddiad cau hwn;</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth/cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd erbyn Dyddiad cau 6;</li> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu terfynol i'w gyflwyno gan yr Ymgeisydd yn y templed Offeryn Statudol gydag adroddiad dilysu templed yr Offeryn Statudol.</li> </ul>	<b>Dydd Mercher 20 Mawrth 2019</b>
<b>18</b>	Cedwir ar gyfer cyhoeddi unrhyw gais am wybodaeth bellach o dan Reol 17	<b>Dydd Llun 27 Mawrth 2018</b>
<b>19</b>	<p>Dyddiad cau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unrhyw ymatebion i geisiadau o dan Reol 17</li> <li>• Unrhyw ymatebion i'r Adroddiad ar y</li> </ul>	<b>Dydd Mercher 3 Ebrill</b>

	Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop (yn ôl yr angen).	
<b>20</b>	Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i orffen archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben.	<b>Dydd Iau 11 Ebrill 2019</b>

### Dyddiadau Cyhoeddi

Cyhoeddir yr holl wybodaeth a dderbynnir ar wefan y prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarau drwy gydol yr Archwiliad a gellir ei gweld drwy dudalennau'r prosiect isod. Rhoddir cyfeirnod unigryw i bob dogfen. Bydd y cyfeirnodau hyn yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod Archwilio yn ystod yr Archwiliad.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/> – gwefan Gymraeg;  
<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/> – gwefan Saesneg.

### Agendâu Gwrandawiadau

Sylwer y byddwn yn anelu at gyhoeddi agenda drafft manwl ar gyfer pob gwrandawriad ar wefan y prosiect o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad; ond mae'n bosibl y bydd yr union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad yn newid yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

### Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop

Pan fydd yr ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol neu Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gyda'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cyhoeddi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop yn ystod yr Archwiliad. Mae'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop yn gyfrif ffeithiol o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod yr Archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop, er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, fel awdurdod cymwys, i ymgymryd â'i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Nid barn yr Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ydyw. Gwahoddir sylwadau ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan yr Awdurdod Archwilio a bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop i fodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd a/neu Reoliad 28 y Rheoliadau Morol oddi ar yr Arfordir.



**Argaeledd dogfennau'r Archwiliad**

Bydd holl ddogfennau'r cais, gan gynnwys Sylwadau Perthnasol a dogfennau'r cais, ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/>

– gwefan Gymraeg;

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/> – gwefan Saesneg.

Gellir gweld dogfennau'n electronig yn y lleoliadau canlynol. Sylwer, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddod â rhyw fath o brawf adnabod ar gyfer defnyddio'r cyfrifiadur yn y lleoliadau hyn.

**Lleoliadau Adneuo Electronig:**

<b>Awdurdod Lleol</b>	<b>Llyfrgell/ Cyfeiriad</b>	<b>Oriau Agor</b>
Cyngor Abertawe	Llyfrgell Clydach  54-56 Stryd Fawr, Clydach, Abertawe SA6 5LN	Dydd Llun – 9.30-17.30 Dydd Mawrth – 9.30-17.30 Dydd Mercher – 9.30-17.30 Dydd Iau – 9.30-17.30 Dydd Gwener – 9.30-18.30 Dydd Sadwrn – 9.30-16.30 Dydd Sul – Ar gau
Cyngor Abertawe	Llyfrgell Treforys  Heol Treharne, Treforys, Abertawe, SA6 7AA	Dydd Llun – 9.00-18.00 Dydd Mawrth – 9.00-18.00 Dydd Mercher – 9.00-18.00 Dydd Iau – 9.00-18.00 Dydd Gwener – 9.00-18.00 Dydd Sadwrn – 9.00-17.00 Dydd Sul – Ar gau
Cyngor Abertawe	Llyfrgell Ganolog Abertawe  Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN	Dydd Llun – Ar gau Dydd Mawrth – 8.30-20.00 Dydd Mercher – 8.30-20.00 Dydd Iau – 8.30-20.00 Dydd Gwener – 8.30-20.00 Dydd Sadwrn – 10.00-16.00 Dydd Sul – 10.00-16.00
<b>Costau Argraffu</b>	<b>Du a Gwyn</b>	<b>Lliw</b>
<b>A4</b>	20c	70c
<b>A3</b>		
<b>Dolen i holl leoliadau llyfrgelloedd y cyngor:</b>		
<a href="http://www.abertawe.gov.uk/llyfrgellclydach">http://www.abertawe.gov.uk/llyfrgellclydach</a>		
<a href="http://www.abertawe.gov.uk/llyfrgelltreforys">http://www.abertawe.gov.uk/llyfrgelltreforys</a>		
<a href="http://www.abertawe.gov.uk/llyfrgellganolog">http://www.abertawe.gov.uk/llyfrgellganolog</a>		

## Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud y penderfyniadau gweithdrefnol canlynol o dan Adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008:

### 1. Datganiadau Tir Cyffredin

O ran rhai o'r Prif Faterion a nodir yn **Atodiad B**, byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe gellir paratoi Datganiadau Tir Cyffredin rhwng yr Ymgeisydd a rhai Partion â Buddiant penodol. Felly, mae'r amserlen ddrafft ar gyfer yr Archwiliad yn darparu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Datganiadau Tir Cyffredin – **erbyn Dyddiad cau 1, sef dydd Iau 31 Hydref 2018.**

Nod Datganiad Tir Cyffredin yw cytuno ar wybodaeth ffeithiol a hysbysu'r Awdurdod Archwilio a phob parti arall drwy nodi lle y ceir cytundeb a lle y ceir gwahaniaethau, yn gynnar yn y broses archwilio. Dylai roi ffocws ac arbed amser drwy nodi materion nad ydynt yn destun anghydfod neu le nad oes angen iddynt fod yn destun tystiolaeth bellach. Hefyd, gall nodi'n ddefnyddiol ble a pham y gallai fod anghytundeb ynghylch dehongliad a pherthnasedd y wybodaeth. Wedyn, gellir ymhelaethu ar y rhesymau dros wahaniaethau a dehongli goblygiadau gwahaniaethau yn y dystiolaeth. Oni nodir neu y cytunir fel arall, dylai'r Datganiad Tir Cyffredin gael ei gytuno rhwng yr ymgeisydd a'r parti neu'r partion perthnasol eraill â buddiant, a dylai'r ymgeisydd ei gyflwyno.

Gofynnir i'r Datganiadau Tir Cyffredin gael eu paratoi gan:

e.e. Datganiad Tir Cyffredin â Sefydliad

- A. **Datganiad Tir Cyffredin gyda Dinas a Sir Abertawe** i gynnwys:
  - Statws y Cais Cynllunio ar gyfer Cysylltiad Nwy o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref
  - Statws y Cais am Gysylltiad Trydan o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref
  - Cytundeb A106
  - Bond datgomisiynu
  - Darpariaeth y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer cyflawni, monitro a gorfodi
- B. **Datganiad Tir Cyffredin â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** i gynnwys:
  - Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol
  - Ardal Lliniaru Ecolegol
  - Statws y Drwydded Amgylcheddol
  - Gorchymyn Caniatâd Datblygu
- C. **Datganiad Tir Cyffredin â Dŵr Cymru Cyfyngedig** i gynnwys:
  - Darpariaethau amddiffynnol
  - Ansawdd dŵr

Dylai'r Datganiadau Tir Cyffredin gynnwys y pynciau canlynol, os byddant yn berthnasol:

- Methodoleg ar gyfer Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol, gan gynnwys asesiad o effeithiau cronus
- Dulliau casglu data
- Data sylfaenol
- Dadansoddiad data/ystadegol, dull o fodelu a chyflwyno canlyniadau (gan gynnwys methodolegau rhagamcanu)
- Mynegiant llawn o ddyfarniadau a rhagdybiaethau arbenigol
- Amlygu a nodi sensitifrwydd nodweddion perthnasol a meintioli'r effaith bosibl
- Effeithiau tebygol (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar nodweddion o ddiddordeb arbennig mewn safleoedd a ddynodir neu a hysbysir ar gyfer unrhyw ddiben cadwraeth natur
- Mesurau lliniaru posibl a chyflawnadwy a dull o sicrhau mesurau lliniaru tebyg o fewn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu

## **2. Dogfennau'r cais ar ôl cyflwyno**

Ar ôl derbyn y cais ar 21 Mehefin 2018, cyflwynodd yr Ymgeisydd, ar 6 Awst 2018, y dogfennau cais diwygiedig i'r Arolygiaeth:

- Updated Book of Reference v1\_CLEAN (AS-002)
- Updated Book of Reference v1\_TRACKED (AS-003)

Derbyniwyd y dogfennau hyn i'r Archwiliad yn ffurfiol gan yr Awdurdod Archwilio, ac fe'u cyhoeddwyd ar dudalennau'r prosiect ar ein gwefan.

## **3. Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft**

Rwyf wedi gwneud penderfyniad gweithdrefnol i gynnal Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft **ddydd Mercher 10 Hydref 2018 am 2.00pm**. Trefnwyd y gwrandawriad hwn ar yr un diwrnod â'r Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn sicrhau y caf gyfle cynnar yn y broses archwilio i drafod y Gorchymyn Caniatâd Datblygu â'r Ymgeisydd a Phartion â Buddiant. Mae'r hysbysiad ffurfiol o'r gwrandawriad hwn i'w weld yn **Atodiad G** i'r llythyr hwn. Mae'r agenda i'w gweld yn **Atodiad H** i'r llythyr hwn.

At ddibenion Rheol 13(1) a (6) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd), y cyfnod heb fod yn llai na 21 diwrnod erbyn pryd y mae'n rhaid i mi ddarparu hysbysiad o'r gwrandawriad ac mae'n rhaid i'r Ymgeisydd gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus a hysbysebu trefniadau'r gwrandawriad yw dim hwyrach na **dydd Mercher 19 Medi 2018**. Mae'r dyddiad hwn cyn dechrau'r Archwiliad, ond mae'n sicrhau y rhoddwyd y cyfnod hysbysu statudol gofynnol o 21 diwrnod ar gyfer y gwrandawriad hwn.

Oherwydd y bydd y Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol yn dechrau'n fuan wedi hynny yn y prynhawn, rwyf wedi penderfynu hefyd y

dylai unrhyw un sy'n bwriadu cymryd rhan yn y Gwrandawriad hwn roi gwybod i'r Rheolwr Achos ei fod/bod yn bwriadu bod yn bresennol erbyn **canol dydd, 3 Hydref 2018**, fel y cynghorir yn **Atodiad G**.

**Cofnod yr Awdurdod Archwilio o Arolygiadau Safleoedd Di-gwmni y mae'r Cais neu'r Materion Penodedig yn ymwneud â hwy**

**Cais gan Abergelli Power Limited ar gyfer Prosiect Pŵer Abergelli**

**Cofnod yr Awdurdod Archwilio o Arolygiad Digwmni o Safleoedd y mae'r Cais neu Faterion Penodedig yn Ymwneud â nhw**

Cynhaliodd yr Arolygydd Archwilio, sef Martin Broderick (yr unigolyn a benodwyd yn Awdurdod Archwilio (y cyfeirir ato fel "yr Awdurdod Archwilio" o hyn allan) ar gyfer cais Prosiect Pŵer Abergelli), yr arolygiad ddydd Mercher 15 Awst 2018.

Cynhaliwyd yr arolygiadau mewn car ac ar droed ar ffyrdd a llwybrau troed cyhoeddus. Cynlluniwyd llwybr ar sail ystyried y materion a godwyd mewn Cynrychiolaethau Perthnasol, gan alluogi'r Awdurdod Archwilio i gael golygfeydd o Brosiect Pŵer Abergelli.

Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, dechreuodd yr Awdurdod Archwilio ei arolygiadau digwmni cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol, gan gynnal arolygiadau o dir a oedd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau ar dir preifat; nid oedd angen caniatâd o flaen llaw i gael mynediad i dir, ac felly gellid cynnal yr arolygiadau hyn yn ddigwmni.

Cynhaliwyd yr arolygiadau i weld safle arfaethedig y cais fel y'i dangoswyd ar y Cynlluniau Tir [APP-057]. Arolygwyd darpar leoliadau o fewn lleoliad y cynigion datblygu yn y cais hefyd.

Cofnodir yr arolygiadau digwmni yn y nodyn hwn, a fwriadwyd i:

- hysbysu'r Ymgeisydd, partion â buddiant ac unigolion eraill am gamau gweithredu a gymerwyd eisoes gan yr Awdurdod Archwilio; ac
- i alluogi'r Ymgeisydd, partion â buddiant ac unigolion eraill i ystyried pa safleoedd ychwanegol y gallai fod angen i'r Awdurdod Archwilio eu harolygu.

**Mae'n bosibl y bydd angen arolygiadau safle ychwanegol.** Bydd y rhaglen arolygu safle yn cael ei thrafod yn y Cyfarfod Rhagarweiniol i'w gynnal ar 10 Hydref 2018. Bydd yr Ymgeisydd, Partion â Buddiant ac unigolion eraill yn cael cyfle i annerch yr Awdurdod Archwilio ynglŷn â'r ymagwedd y dylai ei defnyddio tuag at gynnal arolygiadau safle ac i enwebu lleoliadau arolygu safle. Rhoddir cyfle i gynnig arolygiadau o dir preifat gyda chwmni, os bydd angen.

Cyn cytuno ar arolygiad safle mewn lleoliad penodol, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried i ba raddau y mae angen ymweld â safle a enwebwyd ar gyfer ei arolygu er mwyn rhoi gwybodaeth iddo am y cais.

**Manylion yr Arolygiad**

Cynhaliwyd yr arolygiad digwmni gan yr Awdurdod Archwilio: yr Arolygydd Archwilio Martin Broderick. Diben yr ymweliad oedd i'r Awdurdod Archwilio ymglyfarwyddo â safle'r cais a'i amgylchedd, ac ardal yr astudiaeth asesu'r effaith dirweddol a gweledol y cyfeiriwyd ati ym Mhennod 11 y Datganiad Amgylcheddol ac a ddangoswyd ar Ffigurau Effeithiau Tirweddol a Gweledol 11.1 – 11.9 [APP-028; APP-024; APP-047].

### **Prynhawn 15 Awst 2018**

Cynhaliwyd yr arolygiad mewn car ac ar droed ar 15 Awst 2018. Roedd y tywydd yn gymylog gyda chawodydd ysbeidiol; roedd yn ddigonol i werthfawrogi golygfeydd byr a chanolig tuag at y datblygiad arfaethedig o bob un o'r lleoliadau a arolygwyd. Roedd perthi yn eu llawn dwf ac nid oeddent wedi cael eu torri. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar safle'r Cais.

O fewn 2km o safle Prosiect Pŵer Abergelli, mae:

- 8 llinell trawsyrru foltedd uchel uwchben;
- 3 llinell uwchben 110kv Western Power Distribution;
- 2 is-orsaf drydanol;
- 2 fferm solar;
- gwaith trin dŵr; a
- gorsaf cywasgu nwy.

Dechreuodd yr arolygiad am oddeutu 14.30, gan adael yr M4 wrth gyffordd 46 a mynd ymlaen ar hyd y B4489. Y man cyntaf yr ymwelwyd ag ef oedd y fynedfa i'r ffordd fynediad arfaethedig i safle'r Cais.

Aeth yr arolygiad ymlaen i gyffordd y B4489 a ffordd Rhyd-y-Pandy ychydig i'r de o bentref Felindre. Roedd y perthi uchel iawn yn rhwystro golygfeydd o safle'r Cais. Aeth yr Awdurdod Archwilio i mewn i Felindre, sydd wedi'i lleoli islaw ael bryn serth iawn.

Aeth yr arolygiad ymlaen i ffordd Rhyd-y-Pandy heibio i'r gwaith trin dŵr i Olygfan 9 ar ffordd dramwy gyhoeddus i'r gogledd o Abergelli Fach. Dewisodd yr Awdurdod Archwilio beidio â mynd i union leoliad Golygfan 9, ond edrychodd ar safle'r Cais o'r ffordd. Bydd y cysylltiad nwy arfaethedig yn dechrau o'r fan hon.

Aeth yr arolygiad ymlaen i bentrefan Rhyd-y-Pandy. Roedd y llystyfiant rhyngol trwchus iawn a'r cawodydd yn golygu ei bod hi'n anodd gweld safle'r Cais.

Aeth yr arolygiad ymlaen ar hyd ffordd Rhyd-y-Pandy heibio i Bentwyn i Olygfan 17 ar fferm Cefn Betingau. Unwaith eto, dewisodd yr Awdurdod Archwilio beidio â mynd i union leoliad Golygfan 17, ond edrychodd ar safle'r Cais o'r ffordd. Dyma safle fferm solar.

Aeth yr arolygiad ymlaen ar hyd ffordd Rhyd-y-Pandy heibio i Felin Wen Court gan groesi Afon Llan i Olygfan 16 yn Dorglwyd. Roedd golygfeydd yr Awdurdod Archwilio'n aneglur o ganlyniad i llystyfiant rhyngol.

Aeth yr arolygiad ymlaen ar hyd ffordd Rhyd-y-Pandy i Bant-Iasau i Olygfannau 15 a 14 ger fferm Maes Eglwys. Gwelodd yr Awdurdod Archwilio safle'r Cais o'r is-ffordd ar droed yn y ddwy olygfan.

Daeth yr arolygiad i ben am oddeutu 16.05.

### **Casgliad**

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi ymgyfarwyddo â safle'r Cais a'i amgylchedd. O ystyried yr amodau gwael, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ailymweld â'r holl Olygfannau yn ystod yr archwiliad.

## Hysbysiad o Wrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y caiff Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ei gynnal **ddydd Mercher 10 Hydref 2018** yng **Ngwesty'r Village Hotel, Langdon Road, Abertawe, SA1 8QY**. Bydd cofrestru'n agor am 1.30pm a bydd y gwrandawriad yn dechrau am 2.00pm.

Dylai'r partïon â buddiant hynny sy'n dymuno siarad yn y gwrandawriad roi gwybod i'r Rheolwr Achos, Hefin Jones, yn y cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost yn y prif lythyr erbyn **canol dydd, ddydd Mercher 3 Hydref 2018**.

Byddai'n helpu o ran rheoli'r gwrandawriad pe gallech roi gwybod i dîm yr achos erbyn **canol dydd, ddydd Mercher 3 Hydref 2018**:

- A fyddwch yn bresennol
- Os hoffech siarad yn y cyfarfod
- Am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glyw)

Dylech sicrhau eich bod yn cynnwys eich rhif cyfeirnod parti â buddiant yn eich gohebiaeth.

Mae agenda ar gyfer y gwrandawriad yn ymwneud â materion penodol mewn perthynas â materion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft wedi'i hatodi i'r llythyr hwn yn **Atodiad H**, ac mae'n amlinellu'r pynciau i'w trafod.



**EN010069: Cais gan Abergelli Power Ltd am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Abergelli Power sy'n Rhedeg ar Nwy (y cais)**

**Agenda Gwrandawriad: Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft**

**Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010<sup>1</sup>**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu agenda ar gyfer Gwrandawriad yn ymwneud â Materion Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

**Lleoliad: Gwesty'r Village Hotel, Langdon Road, Abertawe, SA1 8QY**

**Dyddiad: Dydd Mercher 10 Hydref 2018**

**Amser: Bydd y drysau'n agor am 13.30, bydd y gwrandawriad yn dechrau am 14.00**

**Cymryd rhan mewn gwrandawriadau**

Gwahoddir pob parti â buddiant i fod yn bresennol yn y gwrandawriad.

Mae gan bob parti â buddiant hawl i wneud sylwadau llafar yn y gwrandawriad<sup>2</sup> (yn amodol ar bŵer yr Awdurdod Archwilio i reoli'r gwrandawriad). Dylai sylwadau llafar fod yn seiliedig ar y sylwadau perthnasol neu ysgrifenedig a wnaed gan yr unigolyn sy'n gwneud y sylwadau llafar (neu y gwneir sylwadau llafar ar ei r(h)an)<sup>3</sup>.

Caiff gwahoddiad penodol ei estyn i'r partion â buddiant hynny y byddai ganddynt rôl benodol mewn cyflawni a gorfodi gofynion a/neu sy'n gyfrifol am ddyletswyddau a chaniatâd presennol y gallai'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu arfaethedig effeithio arnynt.

Dylai sylwadau llafar fod yn seiliedig ar sylwadau a wnaed gan y cyfranogwr penodol yn ysgrifenedig yn flaenorol, neu sy'n deillio'n uniongyrchol o'r materion a godwyd gan bob parti â buddiant. Fodd bynnag, ni ddylai sylwadau a wneir yn y gwrandawriad ailadrodd materion a grybwyllwyd yn flaenorol mewn sylwadau ysgrifenedig yn unig. Yn hytrach, dylent dynnu sylw at y sylwadau hynny'n gryno a rhoi rhagor o fanylion, esboniad a chadarnhad tystiolaethol er mwyn helpu i lywio'r Awdurdod Archwilio.

Gallai'r Awdurdod Archwilio ofyn cwestiynau am y sylwadau neu ofyn i'r ymgeisydd neu barti arall roi sylwadau neu ymateb.

Ceir egwylliau yn ystod y gwrandawriad, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cadeirydd.

---

<sup>1</sup> Arweiniad ar archwilio ceisiadau ar gyfer caniatâd datblygiad ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mawrth 2015

<sup>2</sup> a91 y Ddeddf Cynllunio (PA 2008)

<sup>3</sup> a91 y Ddeddf Cynllunio (PA 2008)

Dylai pob parti nodi mai diben yr agenda isod yw helpu a darparu fframwaith ar gyfer y gwrandawriad hwn a darparu pwyntiau trafod, ac nid yw'n cyfyngu'r Awdurdod Archwilio i bynciau penodol. Efallai y bydd yr Awdurdod Archwilio eisiau codi materion eraill sy'n deillio o gyflwyniadau a dilyn trywyddau ymholi yn ystod y trafodaethau nad ydynt ar yr agenda. Dylid nodi nad cynnal ymarfer drafftio manwl yw diben y gwrandawriad, ond amlygu materion o egwyddor a materion sy'n weddill rhwng y partion. Bydd yr Awdurdod Archwilio eisiau clywed cyflwyniadau ynghylch pam ac ar ba sail y mae angen mynd i'r afael â materion sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft neu sy'n absennol ohono.

Argymhellir bod pob parti sy'n bresennol yn dod yn barod â chopi o:

- Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft Abergelli Power (Gorsaf Bŵer sy'n Rhedeg ar Nwy), Fersiwn yr Archwiliad, Cyf. y Ddogfen: 3.1, a gyflwynwyd ym Mai 2018.

Bydd y gwrandawriad yn ystyried materion a amlinellwyd eisoes mewn cyflwyniadau i'r Archwiliad, gan gynnwys:

- Sylwadau perthnasol
- Datganiadau Tir Cyffredin

## AGENDA

1. SYLWADAU AGORIADOL
2. CYFLWYNO'R PARTI'ON A FYDD YN CYMRYD RHAN
3. CEISIADAU I HOLI UNIGOLYN SY'N GWNEUD SYLWADAU LLAFAR YN UNIONGYRCHOL O DAN A94 DEDDF CYNLLUNIO 2008
4. ERTHYGLAU'R GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU

Ystyried y diffiniadau a'r disgrifiadau fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, a ph'un a ydynt yn cwmpasu'r holl faterion a'r gwaith angenrheidiol ar ffurf sy'n galluogi pob parti i ddeall paramedrau sylfaenol, strwythur, dull a chyfyngiadau'r caniatâd a geisir.

Graddau darpariaethau a phwerau'r gwaith a geisir, gan gynnwys y cyfnod amser cyffredinol ar gyfer rhoi unrhyw ganiatâd ar waith, a goblygiadau neu gyfranoledd yr hawliau sy'n cael eu ceisio dros unrhyw dir ar sail dros dro.

### Rhan 1

- Erthygl 2 – Graddau diffiniad cynnal. Barn Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Diffiniad dechrau

### Rhan 2

- Manteision Erthygl 6 y Gorchymyn, a
- Throsglwyddo manteision Erthygl 7

### Rhan 4

- Cymhwyso a dileu'r gofyniad ar gyfer caniatâd arall ac effaith deddfwriaeth leol
- Darpariaethau amser yn Erthyglau 17 ac 18

### Rhan 5

**Sylwer**, mewn perthynas â chaffael gorfodol, eir i'r afael â'r materion hyn yn y gwrandawriad Caffael Gorfodol yn bennaf. Fodd bynnag, os oes gan Bartion â Buddiant faterion drafftio penodol yr hoffent dynnu sylw atynt yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn ymwneud â chaffael a meddiant tir, byddwn yn clywed y materion hyn o dan yr eitem hon ar yr agenda.

### Rhan 7

- Erthygl 40 – Ardystio cynlluniau ac ati

- Erthygl 42(4) – y fwyell 8 wythnos

## **5. ATODLEN 1 DATBLYGIAD AWDURDODEDIG**

- Datblygiad Integrol – safbwynt yr Ymgeisydd
- Gwaith Rhif 3 – statws y bont

## **6. ATODLEN 2 GOFYNIION**

### 6.1 Ystyried defnyddio cynllunio rheoli.

- Gofyniad 8 i'w gwneud yn ofynnol cynnal arolygon cyfyngiadau ecolegol cyn-adeiladu cyn dechrau'r gwaith ar y safle. Barn CNC.
- Gofyniad 17 Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu – statws
- Gofynion 18, 19 a 20. A oes eu hangen?
- Gofyniad 23 a Gofyniad 17
- Gofyniad 27 (2)- "caniatâd perthnasol"

### 6.3 Allbwn y safle, sef 299MWe:

- Pa ddull a argymhellir i sicrhau na ragorir ar allbwn y safle, sef 299MWe?

### 6.4 Statws y cais i CNC am Drwydded Amgylcheddol:

- Sawl awr neu ddiwrnod y bydd y safle'n gweithredu, fel arfer?
- A fydd y drwydded amgylcheddol yn cyfyngu'r safle i 1500 awr y flwyddyn?

### 6.5 Terfyn amser ar gyfer Gofyniad gweithredu'r orsaf bŵer

### 6.6 Gofyniad ar gyfer bond datgomisiynu

### 6.7 Taliad cyflawni, monitro a gorfodi

## **7. ATODLEN 11 DARPARIAETHAU AMDDIFFYNNOL**

### 7.1 Darpariaethau amddiffynnol:

- National Grid Gas plc
- National Grid Electricity Transmission plc
- Western Power Distribution
- DCC/Welsh Water
- Wales and West Utilities
- Abergelli Solar Limited
- Eraill

## **8. Atodlen 12**

- Erthygl 42 2 (2) diwygio'r fwyell 14 diwrnod i 28 diwrnod

**9. CYTUNDEBAU A106**

- Dinas a Sir Abertawe
  - o Cyflawni, monitro a gorfodi
- Eraill?

**9. UNRHYW FATER ARALL**

**10. SYLWADAU TERFYNOL**



National Infrastructure Planning  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000  
e-mail: Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk

---

Recipient name  
Address line 1  
Address line 2  
Town  
County  
Postcode

Your Ref:

Our Ref: EN010069

Date: 12 September 2018

---

Dear Sir/Madam

**Planning Act 2008 (as amended) – Section 88 and the Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) – Rules 6 and 13**

**Application by Abergelli Power Limited for an Order Granting Development Consent for the Abergelli Power Project**

**Appointment of the Examining Authority**

I write to you following my appointment by the Secretary of State as the Examining Authority (ExA) to carry out an examination of the above application. A copy of the appointment letter can be viewed at: [Rule 4 Letter](#).

In the interests of efficiency, the ExA commenced its unaccompanied inspections before the Preliminary Meeting, undertaking inspections from publicly accessible land including highways and public rights of way (PROW). No inspections were undertaken on private land, advance permission to enter land was not required and so these inspections could be undertaken on an unaccompanied basis. The inspection took place on Wednesday 15 August 2018 and a note of which can be found in **Annex F**.

**Invitation to the Preliminary Meeting**

This letter is an invitation to the Preliminary Meeting to discuss the examination procedure and contains a number of supporting annexes. I would like to thank those of you who submitted Relevant Representations. These representations have assisted me when preparing my proposals regarding how to examine this application.

**Date of meeting: Wednesday 10 October 2018**

**Seating available from: 09.30am**

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk> <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>



**Meeting begins: 10.00am**

**Venue: The Village Hotel, Langdon Road, Swansea, SA1 8QY**

**Access and parking:**

- **There is free on-site parking at the venue**

- **Swansea Train station 1.1 miles from the venue**

High Street Station, Bus Number 25 – Exit at the Bus Station for Bus Number 48 (Stand H) – Exit at the Old Police Station for a 5 minute walk to the venue.

- **Liberty Stadium 2.2 miles from the venue**

Landore Metro 4 to Bus Station (Stand N) – Bus Number X3(Stand F) towards Maesteg – Exit at the Old Police Station for a 5 minute walk to the venue.

Given the volume and frequency of letters the Planning Inspectorate needs to send to Interested Parties during an examination, the Planning Inspectorate aims to communicate with people by e-mail wherever possible, as electronic communication is more environmentally friendly and cost effective for the Planning Inspectorate as a Government agency. If you are able to receive communications by email, please confirm this with us by **Deadline 1, Wednesday 24 October 2018**, in the Examination Timetable.

You are welcome to make oral contributions in Welsh during the Preliminary Meeting if you wish; translation facilities will be present to enable people to do so. You may also make written representations and respond to written questions in Welsh at any stage during the Examination.

**Purpose of the Preliminary Meeting**

The purpose of the Preliminary Meeting is to enable views to be put to me about the way in which the application is to be examined. At this stage, I am only looking at the procedure, and not the merits of the application. The merits of the application will only be considered once the Examination starts, which is after the Preliminary Meeting has closed.

I wish to run a fair, efficient and effective meeting so that all relevant views can be heard. As such, I strongly encourage groups of individuals who have similar views on the procedure to choose one representative to speak for the group.

The agenda for the meeting is in **Annex A**. This has been set following my initial assessment of the Principal Issues arising on the application. That assessment is set out in **Annex B**. As a result of this assessment I wish to hear at the meeting from the Applicant, Interested Parties, Statutory Parties and Local Authorities where they consider changes may be needed to the draft timetable set out in **Annex C**.

Up to date information about the project and the Examination can be obtained from:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk> <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>



<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/> - English language website;  
<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/> - Welsh language website.

These are the project website addresses from which I will make copies of all future communications and Examination documents available to the public. Please note that all communications issued by the ExA will be bilingual but responses received from the parties will only be published in the language in which they are submitted. You can use these pages to track progress of the Examination and access all relevant documents and correspondence from the links it contains. As the examination process makes substantial use of electronic documents, it will be useful to become familiar with this resource.

If you wish to receive an email notification when relevant documents and correspondence are published you can register on the project website homepages to do so.

### **Attendance at the Preliminary Meeting**

